# LLYWODRAETH CYMRU
# DEDDF IS-DDEDDFAU LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2012
# CANLLAWIAU AR GYFER IS-DDEDDFAU ENGHREIFFTIOL SET 2: TIROEDD HAMDDEN, RHODFEYDD CYHOEDDUS A MANNAU AGORED

## Cyflwyniad

1. Deddf leol a wneir gan gorff statudol, megis Cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, o dan bŵer galluogi mewn Deddf Seneddol neu un o Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw is-ddeddf.

2. Mae is-ddeddfau enghreifftiol yn gweithredu fel templed i Gynghorau pan fyddant yn drafftio is-ddeddfau ac yn nodi geiriad priodol ar gyfer is-ddeddfau mewn perthynas â nifer o bynciau gwahanol. Fodd bynnag, ni ddylid mabwysiadu'r holl enghreifftiau gyda'i gilydd, ond yn ôl yr angen er mwyn mynd i'r afael â phroblem sy'n bodoli eisoes. Dylai Cynghorau nodi bod rhai o'r is-ddeddfau enghreifftiol unigol a/neu eu darpariaethau yn rhai dewisol a dim ond y rhai sydd eu hangen ac sy'n briodol y dylid eu mabwysiadu.

3. Ar ôl i Gyngor gadarnhau bod y broblem y mae angen rhoi sylw iddi yn cael ei chwmpasu gan is-ddeddf enghreifftiol benodol, dylai'r Cyngor ddod o hyd i gopi ohoni ar wefan Llywodraeth Cymru a'i addasu yn ôl ei anghenion. Bydd y nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig yn helpu gyda'r broses ddrafftio. Dylai Cynghorau bob amser ddilyn y weithdrefn berthnasol fel y'i nodir yn Neddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.

4. Argymhellir y dylai Cynghorau ddilyn yr is-ddeddfau enghreifftiol er mwyn lleihau'r risg o broblemau drafftio neu osgoi gweithredu is-ddeddfau nad ydynt yn addas at y diben. Dylid nodi nad yw'r is-ddeddfau enghreifftiol yn rhai gorfodol ac y gellir ychwanegu atynt neu eu diwygio yng ngoleuni profiad ac amgylchiadau sy'n newid ac yn ôl y galw. Fodd bynnag, ceir rhai achosion lle y dylid mabwysiadu is-ddeddfau penodol yn eu cyfanrwydd.

5. Dylid darllen y nodyn cyfarwyddyd canlynol ochr yn ochr â'r is-ddeddfau enghreifftiol a *'Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 - Canllawiau, gan gynnwys Canllawiau Statudol, i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Cynghorau Cymuned a Thref, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru',* a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru drwy ddilyn y ddolen ganlynol:
   http://gov.wales/topics/localgovernment/local-government-byelaws/?lang=cy

6. Lluniwyd y nodyn cyfarwyddyd hwn yn benodol er mwyn cefnogi'r defnydd o'r is-ddeddfau hynny sy'n ymwneud â thiroedd hamdden, rhodfeydd cyhoeddus a mannau agored, a wneir o dan adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875, adran 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906 ac adrannau 12 a 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906.

## Rhagor o wybodaeth/pwyntiau cyswllt

7. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am yr is-ddeddfau enghreifftiol hyn i:

Is-adran Partneriaethau Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost ethicsandregulation@wales.gsi.gov.uk

## Y Pŵer Galluogi

8. Mae adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 ac adran 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906 yn galluogi awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau ar gyfer rheoleiddio rhodfeydd cyhoeddus a thiroedd hamdden ac ar gyfer mannau agored a chladdfeydd yn y drefn honno. Mae adran 12 o Ddeddf Mannau Agored 1906 yn ychwanegu at y mathau o dir y gellir gwneud is-ddeddfau ar eu cyfer o dan adran 15 o'r Ddeddf honno.

9. Bydd pa bwerau galluogi sy'n briodol yn dibynnu ar yr awdurdod statudol y mae buddiant y Cyngor yn y tir yn deillio ohono a pha un a yw'r Cyngor yn ymwneud â'r gwaith o reoli'r tir ai peidio.

10. Os na all y Cyngor gadarnhau o dan ba statud y mae'n dal tir, dylai weithredu fel pe bai'n ei ddal o dan statud heb bŵer penodol i wneud is-ddeddfau. Efallai y bydd **Siart Lif 1**, a atodir i'r nodyn cyfarwyddyd hwn, yn helpu i nodi'r pŵer gwneud is-ddeddfau cywir ar gyfer pob darn o dir y mae'r Cyngor am ei reoleiddio. Mae Siart Lif 1 yn gymwys i dir agored a ddefnyddir fel tir hamdden. Fodd bynnag, nid yw Deddf Mannau Agored 1906 yn berthnasol pan fo mwy na 5% o arwynebedd y tir wedi'i orchuddio gan adeiladau (adran 20 o'r Ddeddf honno).

11. Pan fo cydfuddiant mewn unrhyw dir, dylid ceisio caniatâd pob un o'r partïon â buddiant cyn i'r is-ddeddfau gael eu gwneud. Rhaid cael caniatâd y Comisiynwyr Elusennau er mwyn rheoleiddio tiroedd y mae ganddynt fuddiant ynddynt. Yn yr un modd, dylid cael caniatâd yr awdurdodau esgobaethol, y periglor a chyngor eglwys y plwyf pan fo cynigion i reoleiddio claddfeydd neu fynwentydd. Gan na fydd yn briodol nac yn bosibl rheoleiddio mynwentydd o dan adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 fel arfer, dylai Cynghorau astudio pob un o ddarpariaethau perthnasol Deddf Mannau Agored 1906 (yn enwedig adrannau 6, 11, 12, 15 ac 20) yn ofalus cyn gwneud is-ddeddfau. Os na fydd Cyngor wedi caffael "any estate, interest or control" o dan Ddeddf Mannau Agored 1906, efallai y bydd yn bosibl gwneud is-ddeddfau o dan adran 2 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 ond, unwaith eto, dim ond ar ôl cael caniatâd ysgrifenedig awdurdodau'r eglwys.

12. Dylid defnyddio **Siart Lif 2**, sydd hefyd wedi'i hatodi i'r nodyn cyfarwyddyd hwn, er mwyn helpu Cynghorau i nodi'r pŵer gwneud is-ddeddfau cywir ar gyfer unrhyw dir comin neu faes tref neu bentref y maent am ei reoleiddio. Mae'r Siart Lif hefyd yn gymwys i dir comin a meysydd tref neu bentref, pa un a ydynt wedi'u cofrestru fel y cyfryw o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965. **Noder nad yw Siartiau Llif 1 a 2 yn ddatganiad diffiniol o'r gyfraith a dim ond fel canllaw y'u cynigir.**

**Ymgynghori**

13. Nid oes angen i is-ddeddfau a wneir o dan adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875, adran 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906 ac adrannau 12 a 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906 gael eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012. Nodir y weithdrefn ar gyfer gwneud y cyfryw is-ddeddfau yn adran 6 o'r Ddeddf honno, sydd hefyd yn gosod dyletswydd i ymgynghori ag unrhyw un (gan gynnwys, lle y bo'n gymwys, gyngor cymuned) y cred yr awdurdod fod y mater yn debygol o fod o ddiddordeb iddo neu effeithio arno.

**Defnyddio'r Is-ddeddfau Enghreifftiol**

**Cyfarwyddiadau a chynllun**

14. Mae geiriau mewn print italig yn yr is-ddeddfau enghreifftiol yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i addasu'r is-ddeddf enghreifftiol (e.e. "*rhowch enw*") neu'n rhoi disgrifiad manylach o'r hyn a gwmpesir gan yr is-ddeddf enghreifftiol pan fo nifer o is-ddeddfau enghreifftiol yn ymwneud â'r un pwnc.

15. Yn gyffredinol, defnyddir cromfachau sgwâr i nodi:

    (1) geiriau ychwanegol, y gall fod yn briodol eu defnyddio mewn rhai achosion (e.e. "[Y tu allan i'r mannau dynodedig]";

    (2) dewis o eiriau; neu

    (3) rhifau y bydd angen eu diweddaru, yn ôl pob tebyg, wrth olygu'r set o is-ddeddfau enghreifftiol (e.e. Atodlen [1])

16. Os bydd yr is-ddeddfau yn cynnwys atodlenni neu fapiau, dylai'r rhain ymddangos cyn sêl y Cyngor.

**Darpariaethau dehongli cyffredinol**

17. Dylid defnyddio'r ddarpariaeth ddehongli gyffredinol i ddiffinio termau a ddefnyddir sawl gwaith yn nhestun yr is-ddeddfau. Dim ond y diffiniad yn y rhestr sy'n ymddangos yn nhestun yr is-ddeddfau enghreifftiol a ddewiswyd gan y Cyngor y dylai'r Cyngor ei ddefnyddio.

18. Os bydd gair a ddiffiniwyd ond yn ymddangos yn nhestun un o'r is-ddeddfau y mae Cyngor yn bwriadu ei mabwysiadu, dylid cynnwys y diffiniad hwnnw yn nhestun yr is-ddeddf berthnasol, fel is-baragraff ar wahân os oes modd.

19. Os bydd yr is-ddeddfau yn cael eu rhannu'n Adrannau sy'n ymdrin â phynciau gwahanol, efallai y bydd hefyd yn briodol cynnwys yn yr Adran berthnasol, is-ddeddf ddehongli i ddiffinio'r termau a ddefnyddir sawl gwaith yn yr Adran honno yn unig (e.e. is-ddeddf enghreifftiol 15 yn Adran 3).

**Cymhwyso ac Atodlenni**

20. Dylai cynghorau fabwysiadu naill ai is-ddeddf enghreifftiol 2 neu is-ddeddf enghreifftiol 3. Wrth ddiffinio'r modd y caiff yr is-ddeddf ei chymhwyso, dylid mabwysiadu is-ddeddf enghreifftiol 2 pan fydd yr is-ddeddfau yn gymwys i un darn o dir yn unig neu pan fydd yr is-ddeddfau yn cael eu cymhwyso'n gyson at sawl darn o dir. Dylid defnyddio is-ddeddf enghreifftiol 3 ym mhob achos arall.

21. Os caiff is-ddeddf enghreifftiol 3 ei mabwysiadu, dylid nodi tiroedd y mae unrhyw is-ddeddf yn benodol gymwys iddynt, naill ai yn yr is-ddeddf berthnasol neu yn Rhan 1 o Atodlen 2. Er enghraifft, gallai is-ddeddf enghreifftiol 4 (amserau agor), y dylid ei defnyddio o dan yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff 26 isod yn unig, fod yn gymwys i rai o'r tiroedd y mae'r is-ddeddfau yn gymwys iddynt, yn gyffredinol, ond nid i bob un ohonynt.

22. Pan ddefnyddir atodlen i restru'r tiroedd y bydd yr is-ddeddfau yn gymwys iddynt, dylid dangos y rhestr yn nhrefn yr wyddor yn ôl enw neu ddisgrifiad cryno o'r lleoliad o dan restr yn nhrefn yr wyddor o'r trefi neu'r ardaloedd lle mae'r tiroedd wedi'u lleoli.

**Disgrifio tiroedd a chyfeiriadau at leoliadau daearyddol**

23. Mae'n bwysig disgrifio'r tiroedd yn fanwl: dylid defnyddio enwau'r tiroedd neu, os ydynt yn amwys, dylai'r Cyngor gyfeirio at enwau strydoedd neu dirnodau ffisegol. Dim ond yn ychwanegol at unrhyw ddisgrifiadau y dylid defnyddio cyfeiriadau at ffiniau awdurdodau lleol neu gyfeirnodau mapiau AO.

24. Dylai unrhyw fap neu gynllun y cyfeirir ato yn yr is-ddeddfau fod:

    (1) mewn du a gwyn; o faint addas i'w gynnwys yn yr is-ddeddfau; a
    (2) dylai ragflaenu sêl y Cyngor.

## Mannau a llwybrau dynodedig

25. Mae nifer o is-ddeddfau enghreifftiol yn cyfeirio at "man dynodedig" neu "llwybr dynodedig". Mae'r termau hyn yn cyfeirio at fan neu lwybr y mae'r Cyngor wedi'i neilltuo at ddiben penodol. Rhaid nodi unrhyw fan neu lwybr o'r fath a'i ddiben ar y tir dan sylw gan ddefnyddio arwyddion sy'n cael eu harddangos yn glir.

## Amseroedd agor

26. Am resymau sy'n ymwneud â'i gorfodi, dim ond os yw'r tir wedi'i amgáu ar bob ochr ac y gellir atal mynediad iddo gan ddefnyddio gatiau y gellir eu cloi y dylid mabwysiadu is-ddeddf enghreifftiol 4.

## Dringo

27. Ni ddylid defnyddio is-ddeddfau i ddiogelu pobl rhag canlyniadau eu gweithredoedd eu hunain. Am y rheswm hwn, dim ond er mwyn sicrhau nad achosir niwsans i bobl eraill y dylid defnyddio is-ddeddf enghreifftiol 7, sy'n ymwneud â dringo.

## Diogelu bywyd gwyllt

28. Mae is-ddeddf enghreifftiol 9 yn gymwys i hela, saethu neu drapio anifeiliaid. Os yw'r tir yn cynnwys afon neu ddyfrffordd arall a bwriedir i'r is-ddeddf ddiogelu bywyd gwyllt yn y ddyfrffordd, dylid mabwysiadu is-ddeddf enghreifftiol 43 (pysgota). Gwarchodir adar gwyllt a'u nythod a'u hwyau gan adran 1 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac, felly, ni ddarperir ar eu cyfer yn yr is-ddeddf.

## Tanau

29. Dim ond os bwriedir caniatáu gwersylla neu farbiciws neu'r ddau ar ran o'r tiroedd y mae angen mabwysiadu'r geiriau mewn cromfachau sgwâr.

### Taflu pethau

30. Mae adran 2 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 yn darparu, pan fo tri neu ragor o bersonau sy'n bresennol gyda'i gilydd ac yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio trais anghyfreithlon ac yn ymddwyn (gyda'i gilydd) mewn ffordd a fyddai'n peri i berson eithaf cadarn sy'n bresennol yn y lleoliad ofni bod ei ddiogelwch personol mewn perygl, fod pob un o'r personau sy'n defnyddio neu'n bygwth defnyddio trais anghyfreithlon yn euog o anhrefn dreisgar. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer amgylchiadau sy'n cynnwys tri unigolyn neu ragor. Felly, dim ond o dan amgylchiadau lle mae llai na thri o bobl yn taflu rhywbeth y dylid defnyddio is-ddeddf 13.

## Ceffylau

31. Rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod yr is-ddeddf hon yn rhesymol ac nad yw'n gwahaniaethu'n annheg yn erbyn un rhan o'r gymuned. Byddai gwahardd marchogaeth mewn tiroedd llai o faint yn rhesymol ond ni ellid cyfiawnhau gwaharddiad o'r fath mewn tiroedd ag arwynebedd o bedwar hectar (10 erw) neu fwy.

32. Pan fo Cyngor am wneud is-ddeddf i gyfyngu ar farchogaeth neu ei wahardd ar ddarn penodol o dir, dylai ystyried yn gyntaf pa gyfleusterau eraill sydd yn yr ardal ar gyfer marchogaeth a hefyd ymgynghori ag unrhyw ysgolion marchogaeth a, hyd y gellir, farchogion unigol, er enghraifft, drwy osod hysbysiadau wrth y fynedfa i'r tir neu hysbysebion mewn papurau newydd.

## Cerbydau

33. Mae adran 34(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 (gwahardd cerbydau a yrrir yn fecanyddol mewn mannau eraill heblaw ar ffyrdd) yn darparu, os bydd person yn gyrru cerbyd a yrrir yn fecanyddol heb awdurdod cyfreithlon: (a) i neu ar unrhyw dir comin, rhostir neu dir o unrhyw ddisgrifiad arall, nad yw'n dir sy'n rhan o ffordd, neu (b) ar unrhyw ffordd sy'n llwybr troed, yn llwybr ceffylau neu'n gilffordd gyfyngedig, ei fod yn troseddu. Fodd bynnag, o dan adran 34 nid yw gyrru cerbyd a yrrir yn fecanyddol ar unrhyw dir o fewn 15 llath i ffordd y gellir gyrru cerbydau yn gyfreithlon arni er mwyn parcio ar y tir hwnnw yn drosedd. Dylai Cynghorau ddibynnu ar Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 er mwyn gwahardd reidio neu yrru cerbydau a yrrir yn fecanyddol ar diroedd hamdden ac mewn mannau

agored a dim ond os bwriedir iddi ganiatáu i gerbydau neu ddosbarthau penodol o gerbydau gael eu defnyddio mewn rhai rhannau o'r tir y dylid mabwysiadu is-ddeddf enghreifftiol 21.

34. Mae Is-ddeddf Enghreifftiol 21 yn cynnwys geiriau mewn cromfachau sgwâr y gellir eu mabwysiadu os bydd y Cyngor, er enghraifft, wedi neilltuo llwybr drwy ddarn mawr o dir ar gyfer beiciau modur. Os felly, mae Is-ddeddf Enghreifftiol 21(2) hefyd yn galluogi unigolion sydd am ddefnyddio'r llwybr dynodedig i gludo eu beic modur drwy'r tir er mwyn cyrraedd y llwybr. Efallai y bydd angen addasu'r is-ddeddf hon i amgylchiadau'r tir dan sylw ac ni fydd ei hangen os oes modd mynd ar y tir a'i adael tra'n aros ar y llwybr dynodedig.

## Gemau pêl

35. Fel arfer, dim ond ar ddarn bach iawn o dir neu mewn gardd addurniadol y bydd yn briodol gwahardd gemau pêl. Os bwriedir gwahardd chwarae gemau pêl neu gyfyngu'n ddirfawr arno dylai fod tiroedd eraill yn yr ardal leol nad yw'r cyfyngiadau ar gemau pêl yn gymwys.

36. Os caiff man dynodedig ei neilltuo ar gyfer chwarae gemau pêl ac is-ddeddf enghreifftiol 31 ei mabwysiadu, ni chaiff yr is-ddeddf ei thorri oni fydd rhywun wedi gofyn i'r unigolyn sy'n torri'r rheolau a nodir yn Atodlen 3 (ac a arddangosir yn y man dynodedig) roi'r gorau i'r ymddygiad gwaharddedig. Dim ond os bydd yr unigolyn hwnnw yn anwybyddu’r cais hwn y bydd yn agored i gael ei symud o'r parc a'i erlyn. Mae'r profiso hwn yn bwysig oherwydd, fel arall, gallai is-ddeddf enghreifftiol 31 ddal digwyddiadau dibwys iawn.

## Awyrennau model

37. Wrth fabwysiadu unrhyw un o'r is-ddeddfau enghreifftiol hyn dylai Cynghorau ystyried darpariaethau'r Cod Ymarfer ar Sŵn o Awyrennau Model, a gymeradwywyd ar 1 Chwefror 1982, sydd ar gael o Lyfrfa Ei Mawrhydi a drwy lyfrwerthwyr. Dylent hefyd ymgynghori â Chod Ymarfer Cymdeithas Hedfan Awyrennau Model Prydain am ganllawiau ar ba fathau o awyrennau model y gellir eu hedfan ar diroedd penodol. Cyn gwneud a hysbysebu'r is-ddeddfau dylai'r Cyngor ddwyn eu cynigion i sylw'r British Model Flying Association, Chacksfield House, 31 St Andrew's Road, Leicester, LE2 8RE (cyfeiriad y wefan: www.bmfa.org; rhif ffôn 0116 2440028) ac unrhyw glybiau awyrennau model lleol a dylai ystyried eu sylwadau.

38. Bwriedir i is-ddeddfau sy'n ymwneud ag awyrennau model reoleiddio niwsans sŵn a achosir gan awyrennau; a / neu unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y cyhoedd a achosir drwy ddefnyddio awyrennau model mwy o faint a mwy pwerus. Mae'r geiriad sylfaenol yn y diffiniad o "pweredig" yn is-ddeddf enghreifftiol 45 yn ymdrin ag awyrennau sy'n creu niwsans sŵn. Os oes pryderon gwirioneddol ynghylch diogelwch y cyhoedd, mae'r geiriau mewn cromfachau sgwâr hefyd yn cynnwys awyrennau model tawelwch o fewn y diffiniad.

**Awyrennau, crog-gleiderau a balwnau aer poeth**

39. Mewn achosion lle mae angen is-ddeddf i reoleiddio awyrennau, crog-gleiderau a balwnau aer poeth pan fyddant yn esgyn neu'n glanio ar lan y môr, rhaid i gynghorau gysylltu â'r Adran Polisi Trafnidiaeth, Cynllunio a Phartneriaethau er mwyn sicrhau nad yw'r tir, y disgwylir iddo gael ei ddiogelu gan yr is-ddeddf, wedi'i ddosbarthu'n ardal drefol. Pan fydd tir wedi'i ddiffinio fel ardal drefol, dylid defnyddio Rheolau Rheoliadau Awyr 2007.

**Canfyddwyr metel**

40. Gall cynghorau gyflwyno is-ddeddfau er mwyn gwahardd defnyddio canfyddwyr metel neu gyfyngu ar y defnydd a wneir ohonynt ar diroedd hamdden. Gall is-ddeddfau i wahardd defnyddio canfyddwyr metel fod yn briodol ar diroedd y mae angen diogelwch arbennig arnynt, er enghraifft mannau sy'n cynnwys glaswellt a gwelyau blodau sy'n cael eu torri'n fyr a'u trin yn ofalus neu safleoedd o ddiddordeb archeolegol, botanegol neu wyddonol neu fannau a ddefnyddir yn aml gan bobl ddall neu anabl. Fodd bynnag, gellir ystyried bod is-ddeddf sy'n gwahardd defnyddio canfyddwyr metel mewn mannau nad oes angen diogelwch arbennig arnynt neu ar yr holl diroedd mewn ardal benodol yn rhy gyfyngol ac yn afresymol. Gellir addasu'r is-ddeddf enghreifftiol er mwyn darparu ar gyfer gwaharddiadau rhannol yn ôl yr angen.

41. Os bydd Cyngor am gyflwyno is-ddeddf i gyfyngu ar y defnydd o ganfyddwyr metel neu wahardd eu defnyddio ar unrhyw dir, rydym o'r farn y dylai ymgynghori yn gyntaf ag unrhyw glybiau canfyddwyr metel lleol neu gorff cenedlaethol sy'n cynrychioli defnyddwyr canfyddwyr metel, megis y National Council for Metal Detecting, 51 Hilltop Gardens, Denaby, Doncaster, DN12 4SA (cyfeiriad y wefan: www.ncmd.co.uk, rhif ffôn: 01709 868521; e-bost: trevor.austin@ncmd.co.uk). Dylid ymgynghori hefyd â'r CADW, Plas Carew, Unit 5/7 Cefn Coed Parc, Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, CF15 7QQ; tel 01443 33 6000; email CADW@wales.gsi.gov.uk

## Symud tramgwyddwyr

42. Dylid nodi na fydd y term "un o swyddogion y Cyngor" yn cynnwys un o gyflogeion cwmni diogelwch preifat, hyd yn oed pan fydd wedi'i awdurdodi i weithredu gan y Cyngor.

## Dirymu

43. Mae testun yr is-ddeddf enghreifftiol hon, y gellir ei defnyddio i ddirymu is-ddeddfau sy'n bodoli eisoes, yn cynnwys nifer o gyfarwyddiadau y gall fod angen ymhelaethu arnynt:

    *"rhowch enw"* - yr enw perthnasol fydd enw'r Cyngor a wnaeth yr is-ddeddfau, hyd yn oed os nad y Cyngor hwnnw yw awdurdod lleol yr ardal honno mwyach neu os yw bellach yn ddarfodedig.

44. Dim ond gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru a all ddirymu is-ddeddfau a wnaed o dan adran 8(1)(d) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1894: cysylltwch ag Is-adran Partneriaethau Llywodraeth Leol o fewn Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth.